



**BLIDP SIR Y FFLINT A WRECSAM**

**POLISI AMDDIFFYN PLANT  
ENGHREIFFTIOL**

## **Nodiadau cyfarwyddyd:**

Cynhyrchwyd y Polisi Amddiffyn Plant enghreifftiol yma i helpu cyrff i lunio eu polisi amddiffyn plant eu hunain. Nod y polisi yw rhoi esiampl i chi o strwythur a chynnwys posibl ar gyfer polisi amddiffyn plant. ***Fodd bynnag, byddwn yn argymhell yn gryf bod yr holl gyrff/sefydliadau'n mynd drwy'r broses o ddatblygu eu polisi eu hunain, a fydd yn benodol berthnasol i'w sefydliad hwy; y bobl mae'n eu cyflogi ac yn eu gwasanaethu. Mae'n hanfodol bod aelodau'r sefydliad yn cymryd rhan yn y gwaith o ffurfio'r polisi; eu bod yn ymwybodol ohono a'u bod yn gyfrifol amdano.***

***Mae hi hefyd yn hanfodol bod sefydliadau'n ystyried sut y byddent yn gweithredu'r polisi ac yn gwneud mwy o bobl yn ymwybodol ohono. Bydd angen i unrhyw bolisi amddiffyn plant a ddatblygir yn Sir y Fflint neu Wrecsam gyfeirio at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.***

# **POLISI AMDDIFFYN PLANT ENGHREIFFTIOL**

## **CYNNWYS:**

- 1. Enw'r Sefydliad**
- 2. Datganiad o Ddiben**
- 3. Egwyddorion Allweddol**
- 4. Ystyr Arfer Da**
- 5. Person wedi'i Enwebu ar gyfer y maes Amddiffyn Plant**
- 6. Yr hyn y dylech ei wneud os bydd rhywun yn rhoi gwybod i chi am gamdriniaeth**
- 7. Yr hyn y bydd (y sefydliad) yn ei wneud nesaf**
- 8. Mathau o Gamdriniaeth ac Esgeulustod**
- 9. Ffyrdd positif o amddiffyn plant**
- 10. Beth i'w wneud os ydych yn pryderu**

## **1. Enw'r Sefydliad.....**

## **2. Datganiad o Ddiben**

Dylai cyflwyniad y Polisi Diogelu Amddiffyn Plant yma dynnu sylw at y ffaith bod xxxxxx (enwch y grŵp) yn benderfynol o sicrhau y cymerir pob cam angenrheidiol i amddiffyn rhag niwed, y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n cymryd rhan mewn xxxxxx (beth bynnag yw'r gweithgaredd).

Mae'r polisi yma'n nodi beth yw safle, rôl a chyfrifoldebau'r sefydliad ac yn egluro yr hyn a ddisgwylir gan bawb sy'n ymwneud â'r clwb. Mae'n tynnu sylw'n eglur iawn at y pwysigrwydd a roddir gan xxxxx (enw'r sefydliad) ar amddiffyn plant a phobl ifanc a diogelu eu lles.

Dylai bob plentyn a pherson ifanc sy'n cyfranogi yng ngweithgareddau xxxxx (enwch y sefydliad) allu cyfranogi mewn amgylchedd diogel a hwyliog a chael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. Mae pob oedolyn sy'n ymwneud â'r sefydliad hwn yn gyfrifol am hyn. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, bod cam-drin plant yn bwnc anodd ac emosiynol iawn.

Mae xxxxx (enwch y sefydliad) yn cydnabod ei gyfrifoldeb i ddiogelu a hybu lles yr holl blant a phobl ifanc drwy eu hamddiffyn rhag esgeulustod, bwlio a chamdriniaeth gorfforol, rywiol neu emosiynol. Mae'n benderfynol y bydd yn cwrdd â'i ymrwymadau i sicrhau bod xxxxx (enwch y sefydliad) yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc wneud hynny, gyda gofal o'r safon uchaf posibl.

Mae'r polisi yma wedi'i ysgrifennu yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 (gwelwch y cyfeiriadau).

Bydd xxxxx (enwch y sefydliad) yn sicrhau:-

- Mai lles y plentyn sydd yn hollbwysig
- Bod gan bob plentyn, beth bynnag fo eu hoedran, diwylliant, anabledd, rhyw, iaith, gwreiddiau hiliol, credoau crefyddol a/neu hunaniaeth rhywiol, yr hawl i gael eu diogelu rhag camdriniaeth
- Y bydd pob amheuaeth a chyhuddiad o gamdriniaeth yn cael eu cymryd o ddifrif ac yn derbyn ymateb cyflym a phriodol
- Bydd gan bob aelod o staff (ar gyflog ac heb gyflog) sy'n gweithio yn y sefydliad yma gyfrifoldeb i roi gwybod am bryderon i (enwch y person fydd yn gyfrifol a'u manylion cysylltu).

## **3. Egwyddorion Allweddol**

Bydd xxxxxxxx (enwch y sefydliad) yn cymryd y cyfrifoldeb am:

- Diffinir plentyn yn berson dan 18 oed (Deddf Plant 1989)
- Parchu a hybu hawliau, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc
- Penodi, hyfforddi a goruchwyllo pob gwirfoddolwr ac aelod o staff i fabwysyadau'r arfer gorau er mwyn diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth
- Penodi'r holl weithwyr a gwirfoddolwyr i fabwysiadu a chadw at y codau ymddygiad priodol a'r Gweithdrefnau a Pholisïau Amddiffyn Plant sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon
- Ymateb i unrhyw honiadau'n briodol
- Adolygu'r polisi'n rheolaidd.

- Gall cam-drin plant, yn arbennig camdriniaeth rhywiol, greu emosiynau cryf yn y bobl hynny sy'n wynebu sefyllfa o'r fath. Mae'n bwysig deall y teimladau hyn a pheidio gadael iddynt ymyrryd â'ch beirniadaeth am y camau gweithredu priodol i'w cymryd.
- Gall camdriniaeth ddigwydd mewn nifer o sefyllfaoedd yn cynnwys yn y cartref, yn yr ysgol ac mewn chwaraeon Bydd rhai unigolion yn chwilio am swydd neu waith gwirfoddol gyda phobl ifanc er mwyn eu niweidio. Mae rhai pobl yn y sefydliad yma fydd yn dod i gysylltiad gyda phobl ifanc yn rheolaidd a gallent fod yn ddolen bwysig yn y broses o ganfod achosion lle mae'r bobl ifanc angen eu diogelu. Dylid rhoi gwybod am bob achos amheus o arfer gwael i (xxx enwch y person sy'n gyfrifol am amddiffyn plant) a dylid dilyn y canllawiau yn y polisi hwn.
- Mae amddiffyn plant yn golygu penodi'n ddiogel hefyd. Mae angen i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc gael gwiriad CRB manylach cyn dechrau gweithio, ac mae'n rhaid adnewyddu'r gwiriad yma bob 3 blynedd.

#### **4. Ystyr Arfer Da**

- Gweithio mewn amgylchedd agored bob amser, lle bo'n bosibl, gan osgoi sefyllfaoedd preifat neu heb oruchwyliaeth ac annog cyfathrebu agored.
- Trin pob plentyn ifanc yn gyfartal gyda pharch ac urddas.
- Rhoi lles pob person ifanc yn gyntaf.
- Cadw pellter diogel a phriodol oddi wrth y defnyddwyr gwasanaeth (e.e. nid yw'n briodol i staff neu wirfoddolwyr gael perthynas glos gyda phlentyn neu rannu ystafell â nhw).
- Datblygu perthynas gytbwys wedi'i seilio ar ymddiriedaeth gyfartal a rhoi'r gallu i blant gyfranogi yn y broses o wneud penderfyniad.
- Diweddarau cymwysterau ac yswiriant fel sy'n addas.
- Cynnwys plant/pobl ifanc./rhieni/gofalwyr lle bo'n bosibl.
- Bod yn fodel rôl rhagorol - mae hyn yn cynnwys peidio ysmegu neu yfed alcohol yng nghwmni pobl ifanc.
- Rhoi adborth brwdfrydig ac adeiladol yn hytrach na beirniadaeth negyddol.
- Cydnabod anghenion datblygiadol a gallu pobl ifanc.
- Sicrhau caniatâd rhiant mewn ysgrifen i weithredu in loco parentis, os bydd yr angen yn codi i roi cymorth cyntaf brys a/neu driniaeth feddygol arall.
- Cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw anaf sy'n digwydd ynghyd â manylion unrhyw driniaeth a roddir.
- Gofyn am ganiatâd ysgrifenedig gan riant os oes angen i aelodau clwb gludo pobl ifanc yn eu car.

#### **5. Person wedi'i Enwebu ar gyfer y maes Amddiffyn Plant**

Enw'r person cyswilt a enwyd ar gyfer xxxxx (enw'r sefydliad) yw xxxxxx (enw'r person) a'u manylion cysylltu yw xxxxxx

#### **6. Yr hyn y dylech ei wneud os bydd rhywun yn rhoi gwybod i chi am gamdriniaeth**

Os bydd rhywun yn rhoi gwybod i chi eu bod yn cael eu camdrin, p'un a yw hynny yn y cartref neu mewn lleoliad arall, yna wrth dderbyn yr wybodaeth yma dylech:

- Ymateb yn dawel.
- Tawelu meddwl y plentyn eu bod wedi gwneud y peth cywir drwy ddweud wrthyhych a'u sicrhau nad eu bai nhw yw hyn.
- Cymryd yr hyn y mae'r plentyn yn ei ddweud o ddifrif.

- Osgoi gofyn cwestiynau, gadael i'r plentyn ddweud ei stori. Os bydd angen gofyn cwestiynau er mwyn cael dealltwriaeth glir o'r hyn mae'r plentyn yn ei ddweud, PEIDIWCH â gofyn am fanylion penodol.
- Gwnewch iddynt deimlo'n dawel eu meddwl, ond peidiwch ag addo cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol, oherwydd efallai na fydd hyn yn bosibl wrth i bethau ddatblygu yn nes ymlaen.
- Rhowch wybod i'r plentyn/person ifanc am yr hyn y byddwch yn ei wneud nesaf.
- Cadwch gofnod llawn ac ysgrifenedig o'r hyn a gafodd ei glywed/ddweud gynted ag sy'n bosibl a pheidiwch ag oedi cyn pasio'r wybodaeth ymlaen.

Dylai eich adroddiad gynnwys y dilynol:

- Enw, oed a dyddiad geni'r plentyn.
- Cyfeiriad cartref a rhif ffôn y plentyn.
- A yw'r sawl sy'n gwneud yr adroddiad yn lleisio eu pryderon eu hunain neu pryderon rhywun arall.
- Natur yr honiad, gan gynnwys dyddiadau, amseroedd a ffactorau arbennig a gwybodaeth berthnasol arall.
- Gwahaniaethu'n glir rhwng yr hyn sy'n ffaith, yn sylwadau neu'n si.
- Disgrifiad o unrhyw gleisiau gweladwy neu anafiadau eraill. Hefyd unrhyw arwyddion anuniongyrchol megis newidiadau mewn ymddygiad.
- Manylion tystion i'r digwyddiadau.
- Cyfrif y plentyn, os gall ei roi, am yr hyn sydd wedi digwydd a sut y digwyddodd unrhyw gleisio neu anafiadau.
- A gysylltwyd â'r rhieni?
- Os felly, beth ddywedwyd?
- A gysylltwyd ag unrhyw un arall? Os felly, cofnodwch y manylion.
- Lle bo'n bosibl, dylech gadarnhau mewn ysgrifen o fewn 24 awr os ydych wedi cyfeirio'r achos at yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol a rhoi enw'r person cyswllt a gymerodd y cyfeiriad.

Os oes pryderon ynglŷn â rhannu'r wybodaeth uchod gyda chydweithiwr (er enghraifft os yw'r cyhuddiad yn erbyn y person sydd wedi'i enwi) gallwch gysylltu â:

- Yn Wrecsam – Y Tîm Asesu Plant a Theuluoedd ar 01978 298039
- Yn Sir y Fflint - Y Tîm Dyletswydd ac Asesu Plant ar 01352 701000
- Os yw ar y penwythnos neu gyda'r nos - y Tîm Dyletswydd Argyfwng ar 0845 0533 116

## **7. Yr hyn y bydd xxxxxx (y sefydliad) yn ei wneud nesaf:**

Nid ein cyfrifoldeb ni yw hi i benderfynu a yw camdriniaeth wedi digwydd neu beidio, ond, rydym yn pasio'r wybodaeth ymlaen at yr awdurdod priodol.

Byddwn yn gwneud nodyn ysgrifenedig o'r wybodaeth i gyd felly os gofynnir i ni yn ddiweddarach, gallwn gynhyrchu adroddiad ysgrifenedig.

Rhaid rhoi gwybod ar unwaith am achosion difrifol ac amlwg o gamdriniaeth.

Mewn rhai amgylchiadau efallai y gofynnir i ni fynd i gyfarfod strategaeth i rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau a chytuno sut i weithredu yn y dyfodol.

Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ddyletswydd statudol o dan y Ddeddf Plant 1989 i ddiogelu lles plentyn. Pan wneir cyfeiriad amddiffyn plant, mae ganddynt gyfrifoldeb cyfreithiol i ymchwilio ac mae gan bob asiantaeth ddyletswydd i gydymffurfio â'r ymchwiliadau hynny. Gallai hyn gynnwys siarad gyda'r plentyn a'u teulu, a chasglu

gwybodaeth gan bobl eraill sy'n adnabod y plentyn. Weithiau gwneir ymholiadau ar y cyd gyda'r heddlu. Yn amlwg felly, dylid cymryd pryderon am blant o ddifrif.

Mae amddiffyn plant yn hollbwysig ac os oes gennym unrhyw bryderon am blentyn yn cael ei gamdrin neu ei esgeuluso, byddwn yn cysylltu â:

- **Yn Wrecsam** – Y Tîm Asesu Plant a Theuluoedd ar 01978 298039
- **Yn Sir y Fflint** - Y Tîm Dyletswydd ac Asesu Plant ar 01352 701000
- Os yw ar y penwythnos neu gyda'r nos - y Tîm Dyletswydd Argyfwng ar 0845 0533 116

## **8. Mathau o Gamdriniaeth ac Esgeulustod**

Mae arwyddion/dangosyddion o gamdriniaeth ac esgeulustod yn ddefnyddiol os cânt eu defnyddio gyda rhywfaint o ofal. Dydyn nhw ddim o anghenraid yn dystiolaeth o gamdriniaeth neu esgeulustod, ond os ydych yn pryderu am blentyn neu berson ifanc, gallent eich helpu i ystyried pam mae gennych y pryder hwnnw.

### **8.1 Arwyddion a allai awgrymu camdriniaeth corfforol:**

- Unrhyw gleisio ar fabi - cyn iddynt allu cerdded
- Cleisiau niferus ar wahanol rannau o'r corff
- Cleisiau o wahanol liwiau yn cynrychioli anafu mynych
- Cleisiau blaen bysedd ar frest, cefn, breichiau neu goesau
- Llosgiadau o unrhyw siâp neu faint
- Anaf nad oes esboniad derbyniol amdano.

### **8.2 Arwyddion o gamdriniaeth rywiol bosibl**

- Rhywbeth mae'r plentyn wedi'i ddweud wrthy ch
- Rhywbeth mae'r plentyn wedi'i ddweud wrth rywun arall
- Plentyn yn dangos ymddygiad rhywiol sy'n eich pryderu wrth iddynt chwarae neu gyda phlant eraill
- Plentyn sydd fel petai ganddo/ganddi wybodaeth rywiol sy'n amhriodol ar gyfer eu hoedran
- Plentyn sydd efallai'n ymweld neu'n derbyn gofal gan rywun sy'n adnabyddus fel troseddwr rhywiol neu y drwgdybir eu bod yn droseddwr rhywiol.

### **8.3 Arwyddion sy'n awgrymu niwed emosiynol**

- Gallai'r arwyddion a ganlyn fod yn bresennol mewn plant y mae eu rhieni'n orfeirniadol ac yn emosiynol oeraidd neu sy'n methu cwrdd ag anghenion emosiynol eu plentyn:
- Plant y mae eu hymddygiad yn ormodol: er enghraifft, yn gwlychu'r gwely'n ormodol, yn gorfwyta, yn siglo, yn taro'r pen
- Plant sy'n niweidio'u hunain. Er enghraifft, efallai eu bod yn eu torri neu'n eu crafu eu hunain neu'n cymryd gorddos.
- Plant sy'n ceisio cymryd eu bywydau eu hunain.
- Plant sy'n rhedeg i ffwrdd o'u cartrefi'n barhaol
- Plant sy'n dangos lefelau uchel o bryder, yn anhapus neu'n encilio.
- Plant sydd fel arfer yn chwilio am anwyldeb neu'n ei osgoi.
- Plant sy'n datgelu eu bod wedi gweld neu glywed trais domestig.

### **8.4 Arwyddion a allai awgrymu esgeulustod:**

- Amodau budr, aflan neu beryglus adref
- Rhieni sydd heb ymdrin ag anghenion iechyd neu ddatblygiadol eu plentyn
- Plant sydd bob amser yn edrych yn rhy ysgafn neu'n rhy fach

- Plant sy'n ymddangos wedi blino neu'n brin o egni drwy'r amser
- Plant sy'n cael anafiadau yn aml oherwydd diffyg goruchwyliaeth.

Nodwch os gwelwch yn dda bod y rhestrau hyn yn ddangosyddion posibl o gamdriniaeth, ac mae'n rhaid ystyried unrhyw arwyddion o gamdriniaeth yn eu cyd-destun.

### **9. Ffyrdd positif o amddiffyn plant**

Beth mae plant ei angen?

- Teimlo'n ddiogel a saff
- Iechyd a hapusrwydd
- Anwyldeb priodol
- Llawer o wenu
- Canmol ac anogaeth
- Y gallu i siarad â rhywun
- Bod rhywun yn barod i wrando arnynt
- Profiadau newydd
- Parch i'w teimladau
- Gwobrwyon a chyfle i gael pethau da

### **10. Beth i'w wneud os ydych yn pryderu**

Os ydych yn ansicr a yw plentyn yn dioddef, ond rydych yn poeni, cysylltwch â:

- **Yn Wrecsam** – Y Tîm Asesu Plant a Theuluoedd ar 01978 298039
- **Yn Sir y Fflint** - Y Tîm Dyletswydd ac Asesu Plant ar 01352 701000
- Os yw ar y penwythnos neu gyda'r nos - y Tîm Dyletswydd Argyfwng ar 0845 0533 116

Os ydych yn pryderu bod plentyn wedi dioddef niwed, esgeulustod neu gamdriniaeth, cysylltwch â'r gwasanaeth priodol a welwch uchod. **Mewn argyfwng tu allan i oriau arferol y swyddfa, cysylltwch â'r Tîm Dyletswydd Argyfwng ar 0845 05 33 116 neu ffoniwch yr heddlu os oes perygl uniongyrchol.**

Mae rhagor o wybodaeth am ddiogelu plant a phobl ifanc ar gael ar we-dudalennau BLIDPSFW– [fwlscb@Wrexham.gov.uk](mailto:fwlscb@Wrexham.gov.uk)

### **Cyfeiriadau**

Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008: [www.awcpp.org.uk](http://www.awcpp.org.uk)